Adran Gwaith a Phensiynau

# Nodiadau Lwfans Mamolaeth

## Ffyrdd eraill o gyfathrebu â ni

Os oes angen Braille, Iaith Arwyddion Prydain, dolen glyw, cyfieithiadau, print bras, Hawdd i'w Ddarllen, sain neu rywbeth arall arnoch, cysylltwch â ni ar 0800 169 0296. Os ydych yn byw y tu allan i'r DU, cysylltwch â ni ar +44 191 206 9390.

Os ydych yn defnyddio Relay UK, deialwch 18001 ac yna ein rhif ffôn. Os ydych yn byw y tu allan i'r DU, deialwch +44 151 494 1260 a phan ofynnir i chi, rhowch ein rhif ffôn.

Mae galwadau i rifau 0800 am ddim yn y DU o linellau daear a ffonau symudol.

# Cynnwys


**Lwfans Mamolaeth** .......... 3

**Pryd y dylech wneud cais** .......... 4

**Os bydd eich babi yn marw neu'n farw-anedig** .......... 4

**Pryd gall taliadau Lwfans Mamolaeth ddechrau** .......... 5

**Budd-daliadau eraill rydych chi neu eich partner yn eu cael** .......... 5

**Tâl Mamolaeth Statudol (SMP)** .......... 6

**Cyfnodau Prawf** .......... 7

**Y Cyfnod Lwfans Mamolaeth a'r cyfnod o 14 wythnos** .......... 7

**Absenoldeb Rhiant a Rennir a Thâl Rhiant Statudol a Rennir** .......... 7

**MAT B1W** .......... 8

**Os ydych yn gyflogedig** .......... 8

**Os ydych yn weithiwr asiantaeth** .......... 9

**Os ydych yn hunangyflogedig** .......... 10

**Os ydych yn gwneud gwaith di-dâl ar gyfer busnes eich partner** .......... 11

**Gweithio y tu allan i'r DU** .......... 12

**Gweithio wrth gael Lwfans Mamolaeth** .......... 13

**Absenoldeb salwch sy'n gysylltiedig â beichiogrwydd** .......... 13

**Manylion cyfrif banc** .......... 13

**Rhoi gwybod am newid mewn amgylchiadau** .......... 14

**Os oes angen i chi gysylltu â ni** .......... 15

**Anfon copïau ardystiedig atom** .......... 16

**Hawliau cyflogaeth** .......... 16

**Budd-daliadau eraill y gallech chi neu'ch partner eu cael** .......... 16


## Trin pobl yn deg

Rydym wedi ymrwymo i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac i drin pobl yn deg. I ddarganfod mwy am y gyfraith hon, chwiliwch am 'Deddf Cydraddoldeb' ar **www.gov.uk**

# Lwfans Mamolaeth

Efallai y cewch Lwfans Mamolaeth os byddwch yn cymryd amser i ffwrdd o'r gwaith i gael babi a'ch bod:

- wedi stopio gweithio yn ddiweddar
- yn gyflogedig ond yn methu â chael Tâl Mamolaeth Statudol (SMP)
- yn hunangyflogedig.

Gallwch gael Lwfans Mamolaeth am hyd at 39 wythnos a gallwch wneud cais ar ôl 26ain wythnos y beichiogrwydd.

Gall taliadau ddechrau hyd at 11 wythnos cyn yr wythnos y disgwylir i'r babi gael ei eni. Mae faint a gewch yn dibynnu ar eich enillion, neu'r swm rydych yn cael eich trin fel eich bod yn ei ennill yn ystod y Cyfnod Prawf. Gweler 'Cyfnodau Prawf' ar **dudalen 7**. Os yw eich swydd wedi dod i ben ond eich bod wedi gweithio am o leiaf 26 wythnos yn y 66 wythnos cyn i'ch babi fod i gael ei eni, gallwch wneud cais am Lwfans Mamolaeth o hyd.

Os ydych yn gwneud gwaith di-dâl ar gyfer busnes eich partner, efallai y cewch Lwfans Mamolaeth am hyd at 14 wythnos. Rydym yn defnyddio'r gair partner i olygu person sydd eich gŵr, gwraig neu bartner sifil. Gweler **tudalen 11**.

I gael Lwfans Mamolaeth, mae'n rhaid i chi anfon tystiolaeth o'r beichiogrwydd atom. Rydym yn dweud mwy wrthych am hyn yn ddiweddarach yn y nodiadau hyn. Lle gofynnwn am ddogfennau, rhaid i ni gael dogfennau gwreiddiol neu gopïau ardystiedig. Os nad ydych am anfon dogfennau gwreiddiol atom, gall eich Canolfan Byd Gwaith leol ardystio copïau ar eich rhan. Gweler 'Anfon copïau ardystiedig atom' ar **dudalen 16**.

I gael mwy o wybodaeth am Lwfans Mamolaeth, ewch i **www.gov.uk/lwfans-mamolaeth**

## Faint byddwch yn ei gael

Mae'r cyfraddau Lwfans Mamolaeth a faint a gewch yn cael eu hadolygu bob blwyddyn. Bydd unrhyw newid i'r cyfradd yn effeithiol o ddechrau fis Ebrill. Gelwir hyn yn 'gyfraddau blynyddol'.

I ddarganfod y cyfraddau a faint y gallech ei gael, ewch i **www.gov.uk/lwfans-mamolaeth/beth-fyddwch-yn-ei-gael**

## Cyfrifo'r dyddiadau y bydd eu hangen arnoch

Bydd angen i chi gyfrifo'r dyddiad y gallwch hawlio ohono a dyddiadau pwysig eraill cyn i chi lenwi'r ffurflen. Gallwch ddefnyddio'r tabl Cyfnod Prawf sy'n dod gyda'r ffurflen hon neu'r Gyfrifiannell Cyfnod Prawf ar-lein.

Rydym yn argymell defnyddio'r gyfrifiannell ar-lein gan y bydd yn cyfrifo'r dyddiadau cywir i chi. Defnyddiwch y cod QR isod neu ewch i **https://secure.dwp.gov.uk/check-your-maternity-allowance-dates/date-baby-due?lang=cy** i ddefnyddio'r gyfrifiannell ar-lein.

## Defnyddio codau QR i fynd i wefannau

I sganio cod QR:

- agorwch y camera neu'r ap sganio cod QR ar eich ffôn
- daliwch eich ffôn fel bod y cod QR yn ymddangos mewn golwg
- dewiswch y ddolen i fynd â chi i'r wefan.

# Pryd y dylech wneud cais

**Y cynharaf y gallwch wneud cais yw ar ddechrau'r 14eg wythnos cyn yr wythnos y disgwylir i'r babi gael ei eni. Dyma'r dyddiad y gwnaethoch weithio allan yng ngholofn 5 o'r tabl Cyfnod Prawf. Os ydych yn defnyddio'r cyfrifiannell Cyfnod Prawf ar-lein, dyma'r dyddiad sydd ar frig y dudalen.**

Peidiwch â llofnodi a dyddio'r ffurflen gais cyn y 14eg wythnos cyn yr wythnos y disgwylir i'ch babi gael ei eni. Os gwnewch hynny, gallai oedi eich cais, neu gallech golli arian.

Hyd yn oes os ydych yn dal i weithio neu gymryd rhan mewn busnes eich partner hunangyflogedig, gwnewch gais cyn gynted ag y gallwch, ond mae'n rhaid bod ar ôl yr 14eg wythnos o'r beichiogrwydd. Os bydd y dyddiad yr oeddech yn bwriadu rhoi'r gorau i weithio yn newid, mae'n **rhaid** i chi ddweud wrthym ar unwaith.

Mae'n rhaid i chi ddweud wrthym am unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau. Gweler 'Rhoi gwybod am newidiadau mewn amgylchiadau' ar **dudalen 14**.

## Peidiwch ag oedi i anfon eich cais

Os byddwch yn gwneud cais yn hwyrach na 3 mis ar ôl i chi am i'ch Lwfans Mamolaeth ddechrau, efallai na fyddwch yn cael swm llawn y Lwfans Mamolaeth. Os byddwch yn gwneud cais 3 mis ar ôl y dyddiad y disgwylir i'ch Cyfnod Lwfans Mamolaeth ddechrau, byddwch yn colli arian. Gweler 'Cyfnod Lwfans Mamolaeth neu'r cyfnod o 14 wythnos' ar **dudalen 7**.

## Os caiff eich babi ei eni yn gynnar

Gwnewch gais yn syth ar ôl i'ch babi gael ei eni. Ni fydd eich Cyfnod Prawf yn newid. Gweler 'Cyfnodau Prawf' ar **dudalen 7**.

Os ydych eisoes wedi gwneud cais, rhowch wybod i ni ar unwaith oherwydd gall eich Lwfans Mamolaeth ddechrau'n awtomatig ar y diwrnod ar ôl i'r babi gael ei eni. Rhaid i ni gael tystiolaeth o'r enedigaeth. Gweler 'MAT B1W' ar **dudalen 8**.

# Os bydd y babi yn marw neu'n farw-anedig

Efallai y byddwch yn gallu cael Lwfans Mamolaeth o hyd. Mae hyn yn dibynnu ar pryd y bu farw eich babi.

Efallai y byddwch yn cael Lwfans Mamolaeth os:

- bu farw eich babi ar ôl 24 wythnos gyflawn o feichiogrwydd ac mae gennych dystysgrif farw-anedig, neu
- cafodd eich babi ei eni'n fyw ar unrhyw gam o'r beichiogrwydd ac yna bu farw.

Ni allwch gael Lwfans Mamolaeth os:

- bu farw eich babi cyn ei eni, cyn 24 wythnos gyflawn o feichiogrwydd. Gelwir hyn fel arfer yn gamesgoriad.

### Beth sydd angen i chi ei anfon atom

Er mwyn ein helpu i wneud penderfyniad, anfonwch:

- y dystysgrif MAT B1W wreiddiol gyda Rhan A wedi'i chwblhau gan feddyg neu fydwraig
- y dystysgrif farw-anedig, os bu farw eich babi ar ôl 24 wythnos gyflawn o feichiogrwydd.

Gallwch gael tystysgrif marw-anedig gan eich meddyg, bydwraig neu gofrestrydd. Am fwy o wybodaeth am yr 'MAT B1W', ewch i **dudalen 8**.

Os anfonwch y dystysgrif MAT B1W wreiddiol atom, cadwch gopi. Ni allwn ei dychwelyd atoch.

Byddwn yn dychwelyd tystysgrifau gwreiddiol genedigaeth farw atoch. Os na allwch anfon y gwreiddiol, ewch i 'Anfon copïau ardystiedig atom' ar **dudalen 16**.

Anfonwch y dogfennau atom cyn gynted â phosibl. Bydd hyn yn ein helpu i wneud penderfyniad yn gyflymach.

### Pryd gall y taliadau Lwfans Mamolaeth ddechrau

Gall eich Lwfans Mamolaeth ddechrau o'r diwrnod ar ôl i'ch babi farw neu fod yn fawr-anedig, neu'r diwrnod ar ôl i'ch babi gael ei eni'n fyw.

### Os oes angen i chi gysylltu â ni

Os na allwch anfon y dogfennau neu os oes angen i chi gysylltu â ni, ewch i 'Os oes angen i chi gysylltu â ni' ar **dudalen 15**.

## Pryd gall y taliadau Lwfans Mamolaeth ddechrau

Os ydych yn dal i weithio ar neu ar ôl yr 11eg wythnos cyn yr wythnos y disgwylir i'r babi gael ei eni, gall eich Cyfnod Lwfans Mamolaeth neu gyfnod o 14 wythnos ddechrau ar unrhyw ddiwrnod ar ôl i chi stopio gweithio, ond dim hwyrach na'r diwrnod ar ôl i'r babi gael ei eni.

Rydym yn gofyn i chi yn y ffurflen gais pryd rydych am i'ch taliadau ddechrau. Nid dyma'r dyddiad y byddwch yn cael eich taliad cyntaf gan fod Lwfans Mamolaeth yn cael ei dalu mewn ôl-daliadau.

Os ydych wedi stopio gweithio, bydd eich Cyfnod Lwfans Mamolaeth neu'ch cyfnod o 14 wythnos yn dechrau ar ddydd Sul yr 11eg wythnos cyn yr wythnos y disgwylir i'r babi gael ei eni.

Os ydych i ffwrdd o'r gwaith oherwydd absenoldeb salwch sy'n gysylltiedig â beichiogrwydd neu'n cael Tâl Salwch Statudol (SSP), Lwfans Cyflogaeth a Chymorth dull Newydd neu Fudd-dal Analluogrwydd, ewch i **dudalen 13**.

## Budd-daliadau eraill rydych chi neu'ch partner yn eu cael

Pan fyddwch yn hawlio Lwfans Mamolaeth, gall rhai o'ch budd-daliadau eraill newid. Ewch i **www.gov.uk/lwfans-mamolaeth/beth-fyddwch-yn-ei-gael** i gael gwybodaeth am ba fudd-daliadau a allai gael eu heffeithio. Am wybodaeth am 'Rhoi gwybod am newidiadau mewn amgylchiadau', ewch i **dudalen 14**.

### Os ydych yn cael Credyd Cynhwysol

Bydd eich taliad Credyd Cynhwysol yn cael ei leihau gan swm sy'n hafal i'ch taliad Lwfans Mamolaeth. Fodd bynnag, gall hawlio Lwfans Mamolaeth ar yr un pryd eich helpu i gael cymorth ychwanegol, fel cymorth tuag at gostau gofal plant.

Efallai y byddwch yn gallu cael swm ychwanegol o Gredyd Cynhwysol ar gyfer eich plant hyd yn oed os nad ydych yn cael Lwfans Mamolaeth. Rhowch wybod am newid ar eich cyfrif Credyd Cynhwysol os byddwch yn dechrau cael Lwfans Mamolaeth. Ewch i **www.gov.uk/credyd-cynhwysol/newid-mewn-amgylchiadau** i gael gwybod mwy am roi gwybod am newidiadau i'ch amgylchiadau i Gredyd Cynhwysol.

Os ydych yn hawlio Credyd Cynhwysol yng Nghymru neu Loegr, efallai y byddwch hefyd yn gallu cael:

- Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn
- Talebau Cychwyn Iach.

Am fwy o wybodaeth ewch i **www.gov.uk/grant-mamolaeth-cychwyn-cadarn a www.gov.uk/healthy-start**

Neu, os ydych yn hawlio Credyd Cynhwysol yn yr Alban, efallai y byddwch hefyd yn gallu cael:

- Grant Cychwyn Gorau
- Bwydydd Cychwyn Gorau.

Am fwy o wybodaeth ewch i **www.mygov.scot/best-start-grant-best-start-foods**

Os mai dim ond Lwfans Mamolaeth rydych yn ei hawlio, efallai na fyddwch yn gallu cael y taliadau eraill hyn.

Telir Credyd Cynhwysol a Lwfans Mamolaeth ar wahanol adegau. Telir Credyd Cynhwysol ar yr un dyddiad bob mis. Telir Lwfans Mamolaeth bob pythefnos neu bedair wythnos.

Am fwy o wybodaeth ewch i **www.gov.uk/lwfans-mamolaeth/beth-fyddwch-yn-ei-gael**

## Tâl Mamolaeth Statudol (SMP)

Os ydych yn gyflogai, efallai y bydd eich cyflogwr yn talu Tâl Mamolaeth Statudol (SMP) i chi.

Os ydych yn cael neu'n mynd i gael Tâl Mamolaeth Statudol (SMP) gan gyflogwr presennol neu gyn-gyflogwr am yr un beichiogrwydd, ni allwch gael Lwfans Mamolaeth. Mae hyn yn berthnasol os oes gennych fwy nag un cyflogwr ac os nad yw unrhyw un ohonynt yn talu Tâl Mamolaeth Statudol i chi. Os na fydd dim un o'ch cyflogwyr yn talu Tâl Mamolaeth Statudol i chi, mae'n rhaid i chi ddweud wrthym pam ar **dudalen 4** o'r MA1W a ddaeth gyda'r ffurflen hon. Bydd angen ffurflen SMP1W arnom hefyd gan bob un o'ch cyflogwyr.

Os yw'ch cyflogwr yn penderfynu talu Tâl Mamolaeth Statudol i chi ar ôl i chi hawlio Lwfans Mamolaeth, rhaid i chi ddweud wrthym ar unwaith.

Am fwy o wybodaeth ewch i **www.gov.uk/statutory-maternity-pay-how-different-employment-types-affect-what-you-pay**

# Cyfnodau Prawf

Rydym yn galw'r 66 wythnos cyn y disgwylir i'ch babi gael ei eni eich 'Cyfnod Prawf'. Rydym yn cyfrifo'ch Cyfnod Prawf o'r dyddiad y disgwylir i'r babi gael ei eni ac nid y dyddiad geni go iawn.

Mae'n rhaid i chi gyfrifo dyddiadau eich Cyfnod Prawf cyn i chi lenwi'r ffurflen gais Lwfans Mamolaeth. Gofynnwn am y wybodaeth hon yn y ffurflen gais.

Gallwch gael y dyddiadau drwy ddefnyddio'r gyfrifiannell Cyfnod Prawf ar-lein. Rydych yn nodi'r dyddiad y disgwylir i'r babi gael ei eni, ac mae'n cyfrifo'r dyddiadau sydd eu hangen arnoch.

Defnyddiwch y cod QR isod neu ewch i **https://secure.dwp.gov.uk/check-your-maternity-allowance-dates/date-baby-due?lang=cy** i ddefnyddio'r gyfrifiannell ar-lein.

### Defnyddio codau QR i fynd i wefannau

I sganio cod QR:

- agorwch y camera neu'r ap sganio cod QR ar eich ffôn
- daliwch eich ffôn fel bod y cod QR yn ymddangos o fewn golwg
- dewiswch y ddolen i fynd â chi i'r wefan.

# Y Cyfnod Lwfans Mamolaeth neu'r cyfnod o 14 wythnos

Os ydych yn gyflogedig neu'n hunangyflogedig, telir Lwfans Mamolaeth am 39 wythnos (gelwir hyn yn Gyfnod Lwfans Mamolaeth).

Os ydych yn gwneud gwaith di-dâl ar gyfer busnes eich partner hunangyflogedig, telir Lwfans Mamolaeth am hyd at 14 wythnos (gelwir hyn yn gyfnod 14 wythnos).

Y Cyfnod Lwfans Mamolaeth neu'r cyfnod o 14 wythnos yw pan fyddwn yn eich talu.

# Absenoldeb Rhiant a Rennir a Thâl Rhiant a Rennir Statudol

Mae'n bosibl y byddwch chi a'ch partner neu riant arall y plentyn yn gallu cael Absenoldeb Rhiant a Rennir neu Dâl Rhiant a Rennir Statudol ar ôl i'ch babi gael ei eni.

Os ydych eisiau Absenoldeb Rhiant a Rennir neu Dâl Rhiant a Rennir Statudol, mae'n rhaid i chi ddweud wrthym o fewn 8 wythnos o fod eisiau i'r taliad a rennir ddechrau.

I gael mwy o wybodaeth, ewch i **www.gov.uk/absenoldeb-a-thal-ar-y-cyd-i-rieni**

# MAT B1W

Mae tystysgrif MAT B1W yn profi'r beichiogrwydd ac yn cadarnhau'r wythnos y disgwylir i'r babi gael ei eni. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon i gyfrifo eich Cyfnod Prawf ac efallai y byddwn yn ei defnyddio i benderfynu pryd y gallwn ddechrau talu eich Lwfans Mamolaeth.

Gallwch gael tystysgrif MAT B1W gan eich meddyg neu fydwraig o 20fed wythnos y beichiogrwydd. Maent yn rhad ac am ddim. Mae'n rhaid i'ch meddyg neu'ch bydwraig ei llenwi'n llawn. Os na, gallai oedi eich cais.

Os nad yw'ch babi wedi'i eni, dylent lenwi Rhan A. Os yw'ch babi eisoes wedi'i eni, dylent lenwi Rhan A a B.

Dyma'r dystiolaeth orau i'w hanfon atom. Mae'n rhoi'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnom ac yn golygu nad oes angen i chi anfon dogfennau gwerthfawr atom, fel tystysgrifau geni.

Os byddwch yn anfon yr MAT B1W gwreiddiol i ni dylech gadw copï gan na allwn ei hanfon yn ôl atoch.

Mae angen i chi ddarparu tystiolaeth o ddyddiad disgwyl eich babi, hyd yn oed os yw'r babi eisoes wedi cael ei eni. Gallai hyn fod:

- llythyr gan eich meddyg neu fydwraig ar bapur pennawd
- eich tystysgrif MAT B1W.

Os yw'r babi wedi cael ei eni pan fyddwch yn gwneud cais ac nad yw Rhan B o'r MAT B1W wedi cael ei lenwi, mae'n rhaid i chi anfon prawf o'r enedigaeth i ni. Gallai hyn fod:

- drwy ddweud wrthym ar **dudalen 3** o'r MA1W a anfonwyd gyda'r nodiadau hyn dyddiad geni ac enw llawn eich babi, a rhif system y dystysgrif geni
- tystysgrif geni wreiddiol y babi neu dystysgrif a ardystiwyd gan y Ganolfan Byd Gwaith
- llythyr gan eich meddyg neu fydwraig ar bapur pennawd - gall hwn fod yr un llythyr â'r un sy'n profi'r dyddiad geni.

Ni ddylech newid y MAT B1W. Dim ond meddyg neu fydwraig all eu llenwi. Os byddwch yn newid neu'n ychwanegu unrhyw wybodaeth, gall ohirio eich hawliad.

Am fwy o wybodaeth am y MAT B1W ewch i **www.gov.uk** a chwiliwch am 'MAT B1W'.

# Os ydych yn gyflogedig

Mae'n rhaid i'ch cyflogwr roi ffurflen SMP1W i chi sy'n dweud wrthych pam na allwch gael Tâl Mamolaeth Statudol (SMP). Os oes gennych fwy nag un cyflogwr yn ystod y 15fed wythnos cyn y disgwylir eich babi, mae'n rhaid i chi anfon SMP1W atom gan bob cyflogwr. Gweler 'Tâl Mamolaeth Statudol' ar **dudalen 6**.

I gael Lwfans Mamolaeth, mae'n rhaid bod gennych enillion gros o leiaf £30 yr wythnos ar gyfartaledd. Gall hyn gynnwys amseroedd y cawsoch eich talu ond nad oeddech yn gweithio.

Mae enillion gros yn golygu faint o arian y mae eich cyflogwr yn ei dalu i chi cyn didynnu unrhyw beth. Er enghraifft, treth incwm neu gyfraniadau Yswiriant Gwladol.

### Cyflogedig - tystiolaeth y mae'n rhaid i chi ei hanfon atom

Rhaid i chi anfon:

- y dystysgrif MAT B1W gwreiddiol (gweler 'MAT B1W' ar **dudalen 8** a 'Anfon copïau ardystiedig atom' ar **dudalen 16**)
- ffurflen SMP1W gan bob cyflogwr (os gwrthodir SMP) a
- 13 wythnos o slipiau cyflog.

Nid oes angen i'r 13 wythnos o slipiau cyflog gysylltu â'i gilydd, ond rhaid iddynt fod o fewn eich Cyfnod Prawf.

**Dylech anfon y slipiau cyflog o'r 13 wythnos y gwnaethoch ennill y fwyaf o arian yn ystod y Cyfnod Prawf o 66 wythnos.** Mae darparu eich enillion uchaf yn golygu y gallech gynyddu swm y Lwfans Mamolaeth a gewch.

Os oedd gennych fwy nag un gyflogaeth yn unrhyw un o'r wythnosau a ddewiswyd gennych, anfonwch y slipiau cyflog o'r holl gyflogaethau atom.

Os nad oes gennych slipiau cyflog gwreiddiol na chopïau ar-lein, gofynnwch i'ch cyflogwr roi copïau neu ddatganiad i chi sy'n cynnwys yr 13 wythnos a ddewiswyd gennych pan ennillwyd y mwyaf o arian.

Os byddwch yn anfon dogfennau gwreiddiol atom, dylech gadw copïau gan na allwn anfon y ffurflen MAT B1W, SMP1W a slipiau cyflog yn ôl atoch. I gael mwy o wybodaeth am 'Anfon copïau ardystiedig atom' gweler **tudalen 15**.

Efallai y byddwn yn gwirio'r wybodaeth a roddwch i ni gyda'ch cyflogwr.

## Os ydych yn weithiwr asiantaeth

Os ydych yn weithiwr asiantaeth, rydym yn ystyried eich bod yn gyflogedig os:

- ydych yn talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1 ar eich enillion, neu
- dylech dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1, ond nid ydych yn gwneud hynny oherwydd eich oedran neu lefel enillion.

Os ydych yn weithiwr asiantaeth yn eich Cyfnod Prawf, mae angen i ni wybod dyddiadau dechrau a diwedd y contract.

Os ydych wedi cael sawl contract yn ystod eich Cyfnod Prawf, rhaid i chi ddweud wrthym am yr holl gontractau.

### Gweithwyr asiantaeth – tystiolaeth y mae'n rhaid i chi ei hanfon atom

Mae'n rhaid i chi anfon:

- dystysgrif MAT B1W gwreiddiol (gweler 'MAT B1W' ar **dudalen 8** ac 'Anfon copïau ardystiedig atom' ar **dudalen 16**)
- prawf o gofrestriad gyda'r asiantaeth
- 13 wythnos o slipiau cyflog.

Nid oes angen i'r slipiau cyflog 13 wythnos gysylltu â'i gilydd, ond rhaid iddynt fod o fewn eich Cyfnod Prawf. **Rhaid i chi anfon slipiau cyflog eich 13 wythnos â'r enillion uchaf atom yn ystod eich Cyfnod Prawf 66 wythnos**. Mae darparu eich enillion uchaf yn golygu y gallech gynyddu swm y Lwfans Mamolaeth a gewch.

Efallai y byddwn yn cysylltu â'r asiantaeth i wirio'r wybodaeth a roddwyd i ni.

I gael mwy o wybodaeth am weithwyr asiantaeth ewch i **www.gov.uk/statutory-maternity-pay-how-different-employment-types-affect-what-you-pay**

# Os ydych yn hunangyflogedig

Os ydych yn hunangyflogedig mae'n rhaid i chi fod wedi cofrestru ar gyfer hunanasesiad gyda Chyllid a Thollau Ei Fawrhydi (HMRC). Os na gofrestrwch, neu gofrestru'n hwyr, gallech golli rhywfaint neu'r cyfan o'ch hawl i Lwfans Mamolaeth.

Mae'r swm a gewch yn cael ei gyfrifo ar sail faint o gyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 2 rydych wedi'u gwneud yn y 66 wythnos cyn yr wythnos y disgwylir i'r babi gael ei eni.

Os nad ydych wedi talu unrhyw gyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 2, byddwch yn cael eich trin fel petaech ag enillion o £30 yr wythnos am 13 wythnos yn y Cyfnod Prawf. Mae hyn yn golygu y gallech gael £27 yr wythnos tra bod unrhyw gyfraniadau a wnewch yn gysylltiedig â'ch cais am Lwfans Mamolaeth. Gall hyn gymryd sawl wythnos.

Os ydych wedi talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 2 o fewn y Cyfnod Prawf, byddwn yn cyfrifo faint o Lwfans Mamolaeth y byddwch yn ei gael yn seiliedig ar nifer y cyfraniadau rydych wedi'u talu a'r wythnosau y maent yn eu cynnwys.

## Hunangyflogedig – talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 2

Os ydych yn hunangyflogedig, efallai y gallwch gynyddu eich Lwfans Mamolaeth drwy dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol gwirfoddol.

Os ydych yn gwneud cais am Lwfans Mamolaeth, byddwn yn rhoi gwybod i CThEF. Byddant yn dweud wrthych faint o gyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 2 y mae angen i chi eu talu.

Os dewiswch dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 2, efallai y byddwch yn gallu cael y gyfradd safonol o Lwfans Mamolaeth yr wythnos am 39 wythnos.

I gael mwy o wybodaeth am gyfraniadau Yswiriant Gwladol a sut i'w talu, ewch i **www.gov.uk/voluntary-national-insurance-contributions**

## Hunangyflogedig – tystiolaeth y mae'n rhaid i chi ei hanfon atom

Rhaid i chi anfon y canlynol atom:

- y dystysgrif MAT B1W wreiddiol (gweler 'MAT B1W' ar **dudalen 8** ac 'Anfon copïau ardystiedig atom' ar **dudalen 16**).

# Os ydych yn gwneud gwaith di-dâl ar gyfer busnes eich partner

Gallwch gael y gyfradd is o Lwfans Mamolaeth am hyd at 14 wythnos os am o leiaf 26 wythnos yn y 66 wythnos cyn y disgwylir y babi, rydych:

- wedi gwneud gwaith di-dâl ar gyfer busnes eich partner
- **heb** fod yn gyflogedig nac yn hunangyflogedig
- wedi bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil gyda'r un person hunangyflogedig
- **nid** yn bartner ym musnes eich partner nac yn gyflogai iddo.

Yn yr un 26 wythnos yn ystod eich Cyfnod Prawf, mae'n rhaid bod eich partner wedi:

- cofrestru ar gyfer hunanasesiad gyda CThEF a thalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 2, a
- gweithio fel enillydd hunangyflogedig yn eu busnes.

Os yw'ch partner yn gyfarwyddwr â chyflog o gwmni cyfyngedig, ni allwch gael Lwfans Mamolaeth.

## Gwaith di-dâl ar gyfer busnes eich partner – tystiolaeth y mae'n rhaid i chi ei hanfon atom

Mae'n rhaid i chi anfon:

- y dystysgrif MAT B1W gwreiddiol (gweler 'MAT B1W' ar **dudalen 8** ac 'Anfon copïau ardystiedig atom' ar **dudalen 16**)
- tystysgrif briodas neu bartneriaeth sifil, a
- archddyfarniad absoliwt neu dystysgrif diddymu (os yw'r briodas neu bartneriaeth sifil wedi dod i ben neu wedi'i diddymu).

## Gwaith di-dâl ar gyfer busnes eich partner – cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 2

Mae'n rhaid bod eich partner wedi talu digon o gyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 2 i chi gael Lwfans Mamolaeth.

Os nad ydynt wedi talu digon o gyfraniadau, efallai y bydd angen i ni gysylltu â nhw ynglŷn â thalu cyfraniadau gwirfoddol. Os bydd eich partner yn dewis talu eu cyfraniadau, efallai y byddwch yn cael y gyfradd is o Lwfans Mamolaeth.

Gofynnwn am eich caniatâd i gysylltu â'ch partner sydd ar y ffurflen gais. Mae'n rhaid i chi dicio'r blwch lle rydym yn gofyn am eich caniatâd. Gallwch ofyn i ni beidio â chysylltu â nhw, ond efallai na fyddwch yn cael Lwfans Mamolaeth.

I gael mwy o wybodaeth am gyfraniadau Yswiriant Gwladol a sut i'w talu, ewch i **www.gov.uk/voluntary-national-insurance-contributions**

# Gweithio y tu allan i'r DU

Mae swm y Lwfans Mamolaeth a gewch yn cael ei weithio allan ar sail eich cyflogaeth ac enillion yn y Deyrnas Unedig (DU).

Nid oes rhaid i chi fod yn ddinesydd y DU. Mae gan y DU drefniadau gyda rhai gwledydd eraill i'ch helpu i gael Lwfans Mamolaeth os ydych yn mynd y tu allan i'r DU neu os ydych wedi bod y tu allan i'r DU yn ddiweddar ac wedi dychwelyd i'r DU.

Os nad ydych wedi gweithio neu ennill digon yn y DU i gael Lwfans Mamolaeth, ond wedi gweithio y tu allan i'r DU mewn rhai gwledydd, efallai y gallwn gymryd yr enillion hynny i ystyriaeth.

Yn dibynnu ar y gwlad rydych yn gwneud y gwaith di-dâl ohoni, efallai y cewch Lwfans Mamolaeth os:

- ydych yn gwneud gwaith di-dâl ar gyfer busnes eich partner hunangyflogedig tu allan i'r DU, a
- bod y busnes hwnnw wedi'i leoli yn y DU.

Os yw busnes eich partner hunangyflogedig:

- wedi'i leoli tu allan i'r DU, ac
- rydych yn gwneud gwaith di-dâl sy'n ymwneud ag ef o'r DU neu o wlad arall, y gwlad lle mae'r busnes wedi'i leoli fydd yn penderfynu a allwch gael Lwfans Mamolaeth o dan amodau cymhwyso'r wlad honno.

Os yw eich partner yn:

- aelod presennol o Luoedd Arfog Prydain, ac
- rydych yn byw mewn gwlad y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, ac
- nid oes gan y DU Gytundeb Cyfatebol â'r gwlad rydych yn byw ynddi, efallai na fyddwch yn cael Lwfans Mamolaeth, ond efallai y gallwch gael taliad Ex-Gratia gan y Weinyddiaeth Amddiffyn (MoD).

Yn gyntaf dylech anfon eich cais i Lwfans Mamolaeth, rhan o DWP. Os na all DWP eich talu, byddant yn dweud wrthych beth sydd angen i chi ei wneud.

I gael mwy o wybodaeth am daliadau Ex-Gratia gan y Weinyddiaeth Amddiffyn, ewch i **www.aff.org.uk/advice/finances/military-allowances/**

Am fwy o wybodaeth am weithio dramor a hawlio Lwfans Mamoleath, ewch i **www.gov.uk/international-pension-centre**

Gallwch ysgrifennu atom yn:

International Pension Centre
The Pension Service 11
Mail Handling Site A
Wolverhampton
WV98 1LW

Os ydych yn ein ffonio o'r DU ffoniwch 0191 206 9390.

Os ydych yn ein ffonio o y tu allan i'r DU ffoniwch +44 191 206 9390.

# Gweithio wrth gael Lwfans Mamolaeth

Os ydych yn gyflogedig neu'n hunangyflogedig, gallwch weithio am hyd at 10 diwrnod yn ystod eich Cyfnod Lwfans Mamolaeth. Gelwir y rhain yn ddyddiau cadw mewn cysylltiad. Os ydych yn gweithio mwy na'r 10 diwrnod cadw mewn cysylltiad, efallai y byddwch yn colli arian.

Os oeddech yn gwneud gwaith di-dâl ar gyfer busnes eich partner, ni allwch gael diwrnodau cadw mewn cysylltiad. Efallai y byddwch yn colli arian am unrhyw waith a wnewch yn ystod eich Cyfnod Lwfans Mamolaeth.

Mae'n rhaid i chi ddweud wrthym am unrhyw ddiwrnodau rydych yn gweithio. Gweler 'Rhoi gwybod am newidiadau mewn amgylchiadau' ar **dudalen 14**.

Am fwy o wybodaeth ewch i **www.gov.uk/government/publications/maternity-benefits-technical-guidance**

# Absenoldeb salwch sy'n gysylltiedig â beichiogrwydd

Os ydych ar absenoldeb salwch oherwydd salwch sy'n gysylltiedig â beichiogrwydd ar neu ar ôl y 4edd wythnos cyn yr wythnos y disgwylir i'r babi gael ei eni, mae'n rhaid i'ch Lwfans Mamolaeth ddechrau unrhyw bryd yn y cyfnod hwn o 4 wythnos.

Os oeddech yn gwneud gwaith di-dâl ar gyfer busnes eich partner hunangyflogedig, bydd eich Lwfans Mamolaeth yn dechrau yn awtomatig ar y diwrnod ar ôl y diwrnod cyntaf rydych:

- yn sâl ac yn absennol o'r gwaith, neu
- wedi stopio gwneud gwaith di-dâl iddynt.

Os oeddech yn cael Tâl Salwch Statudol (SSP), Lwfans Cyflogaeth a Chymorth Dull Newydd neu Fudd-dal Analluogrwydd yn y cyfnod hwn o 4 wythnos, efallai y bydd yn dod i ben.

Os ydych chi a'ch cyflogwr yn anghytuno a yw eich salwch yn ymwneud â'r beichiogrwydd, rhowch wybod i ni ar unwaith.

Os ydych yn cael SSP gan eich cyflogwr, mae'n rhaid i'ch SSP ddod i ben pan fydd eich Lwfans Mamolaeth yn dechrau. Mae'n **rhaid** i chi ddweud wrth eich cyflogwr ar ba ddyddiad y bydd eich Cyfnod Lwfans Mamolaeth yn dechrau.

# Manylion cyfrif banc

Gallwch ddod o hyd i'ch manylion cyfrif ar eich cyfriflenni banc, ar eich ap bancio neu ar lyfr siec. Gofynnwch i'ch banc neu gymdeithas adeiladu os nad ydych yn gwybod eich manylion cyfrif.

Os ydych yn mynd i agor cyfrif, llenwch a dychwelwch y ffurflen gais Lwfans Mamolaeth ar unwaith a rowch eich manylion cyfrif i ni cyn gynted â phosibl:

- gallwch ddefnyddio cyfrif yn eich enw chi, neu gyfrif ar y cyd
- os ydych yn benodai neu'n gynrychiolydd cyfreithiol yn gweithredu ar ran yr hawlydd, dylai'r cyfrif fod yn eich enw chi yn unig
- gallwch ddefnyddio cyfrif rhywun arall os:
  - mae telerau ac amodau eu cyfrif yn caniatàu hyn
  - maent yn cytuno i chi ddefnyddio eu cyfrif, a
  - rydych yn siwr y byddant yn defnyddio eich arian yn y ffordd rydych yn dweud wrthynt ei wneud.

# Rhoi gwybod am newidiadau mewn amgylchiadau

Mae'n rhaid i chi ddweud wrthym am unrhyw newid mewn amgylchiadau ar unwaith, hyd yn oed os nad ydych wedi cael penderfyniad ar eich cais. Gall newid faint o Lwfans Mamolaeth a gewch.

Gall rhywun arall ffonio ar eich rhan, ond bydd angen i chi fod gyda nhw pan fyddant yn ffonio. Gweler 'Os oes angen i chi gysylltu â ni' ar **dudalen 15**.

## Newidiadau y mae'n rhaid i chi ddweud wrthym amdanynt

Mae'n rhaid i chi ddweud wrthym ar unwaith os ydych:

- yn symud i Ynys Manaw neu Ynysoedd y Sianel ac am gael eich arian tra'ch bod yno
- yn symud neu'n bwriadu symud y tu allan i'r DU
- yn mynd i'r carchar neu'n cael eich cadw yn y ddalfa gyfreithiol
- yn dychwled i'r gwaith (gan gynnwys diwrnodau cadw mewn cysylltiad)
- yn dechrau neu stopio unrhyw waith fel person cyflogedig neu hunangyflogedig, gan gynnwys unrhyw waith di-dâl ar gyfer busnes eich partner hunangflogedig
- yn newid y dyddiad rydych yn bwriadu stopio gweithio
- yn dechrau swydd newydd
- rydych yn gwneud cais am neu'n cael:
  - Tâl Mamolaeth Statudol (SMP)
  - Tâl Rhiant a Rennir Statudol (SSPP)
  - Tâl Mabwysiadu Statudol (SAP)
  - Tâl Gofal Newydd-anedig Statudol (SNCP)
- yn dechrau cael pensiwn galwedigaethol gan gyflogwr neu gael cynnydd mewn pensiwn galwedigaethol
- yw eich, partner, neu unrhyw un arall yn hawlio unrhyw arian ar eich rhan neu'n cael arian wedi'i ychwanegu at eu budd-daliadau ar eich rhan.

## Newidiadau eraill y mae'n rhaid i chi ddweud wrthym amdanynt

Dywedwch wrthym ar unwaith hefyd os ydych:

- yn newid eich enw, cyfeiriad neu rifau ffôn
- yn newid y cyfrif rydych yn gofyn i ni dalu eich budd-dal iddo
- â rhywun sydd ag awdurdod i ofalu am eich materion a bod y person hwnnw'n newid.

### Newid enw - yr hyn y mae'n rhaid i chi ei anfon atom

Os yw eich enw wedi newid ac nad yw hyn wedi'i ddiweddaru ar gofnodion swyddogol, rhaid i chi anfon prawf o'ch enw newydd gyda'ch ffurflen gais. Os na fyddwch yn anfon hwn, gallai ohirio'ch cais.

Gallech anfon un o'r canlynol fel prawf:

- tystysgrif priodas
- tystysgrif partneriaeth sifil
- tystysgrif ysgariad
- gweithred newid enw
- Tystysgrif Cydnabod Rhyw (GRC)
- datganiad statudol – rhaid llofnodi hwn o flaen tyst awdurdodedig, fel cyfreithiwr, notari cyhoeddus neu gomisiynydd llwon.

### Os byddwn yn talu gormod o arian i chi

Efallai y bydd eich Lwfans Mamolaeth yn cael ei atal neu ei leihau os na fyddwch yn dweud wrthym am newid ar unwaith. Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu dirwy hefyd.

Efallai y byddwn yn gofyn i chi ad-dalu arian os:

- nad ydych wedi dweud wrthym am y newid ar unwaith
- rydych wedi rhoi gwybodaeth anghywir i ni
- yn cael eich talu gormod o arian trwy gamgymeriad.

## Os oes angen i chi gysylltu â ni

**Os ydych yn byw yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban cysylltwch â:**

DWP Maternity Allowance
Mail Handling Site A
Wolverhampton
WV98 2GL

Siaradwyr Cymraeg ffoniwch 0800 169 0296.

Os ydych yn defnyddio Relay UK, deialwch 18001 ac yna ein rhif ffôn.

**Os ydych yn hawlio o'r tu allan i'r DU:**

International Pension Centre
The Pension Service 11
Mail Handling Site A
Wolverhampton
WV98 1LW

Os na allwch anfon y ffurflen yn ôl atom, rhowch wybod i ni ar unwaith. Cysylltwch â ni ar +44 191 206 9390. Os ydych yn defnyddio Relay UK, deialwch +44 151 494 1260 ac yna ein rhif ffôn.

Neu gallwch ddod o hyd i fwy yn **www.gov.uk/international-pension-centre**

# Anfon copïau ardystiedig atom

Os ydych yn byw yn y DU ac nad ydych am anfon dogfennau gwreiddiol atom, gall eich swyddfa Canolfan Byd Gwaith leol wneud copïau ardystiedig i chi. Bydd angen i chi wneud apwyntiad gyda'ch Canolfan Byd Gwaith leol er mwyn cael eich dogfennau wedi'u hardystio. Byddant yn gwirio eich dogfennau gwreiddiol, a gwneud copïau ardystiedig sy'n cynnwys eu stamp swyddfa ac yn anfon y wybodaeth ardystiedig sydd ei hangen arnom. Ni allwn dderbyn copïau sydd wedi'u hardystio gan gyfrifydd, rheolwr banc, notari neu weithiwr broffesiynol arall.

I wneud apwyntiad, cysylltwch â'ch swyddfa Canolfan Byd Gwaith agosaf. Gallwch ddod o hyd i'w manylion cyswllt drwy fynd i **https://find-your-nearest-jobcentre.dwp.gov.uk/cy**

Os ydych yn byw y tu allan i'r DU neu os na allwch gyrraedd swyddfa Canolfan Byd Gwaith leol i ardystio copïau ar eich rhan, mae'n rhaid i chi anfon y dogfennau gwreiddiol atom.

# Hawliau cyflogaeth

Os ydych yn gyflogai, mae gennych hawl i gymryd amser i ffwrdd o'r gwaith i gael babi. Mae gennych hefyd hawliau cyflogaeth ac anghydfod eraill. Am fwy o wybodaeth ewch i **www.gov.uk/employee-rights-when-on-leave**

# Budd-daliadau eraill y gallech chi neu'ch partner eu cael

I gael mwy o wybodaeth am fudd-daliadau eraill y gallech chi neu'ch partner eu cael, ewch i **www.gov.uk/browse/benefits**

Os oes angen help arnoch i reoli eich arian, ewch i **www.moneyhelper.org.uk/cy** neu gallwch ffonio'r gwasanaeth Helpwr Arian ar 0800 138 0555.

Maent yn cynnig cyngor annibynnol am ddim ar sut i wneud y gorau o'ch arian, gan gynnwys cyllidebu, cynilion a delio â dyled.

Mae'r nodiadau hyn yn rhoi gwybodaeth gyffredinol i'ch helpu i lenwi'r ffurflen hawliad Lwfans Mamolaeth. Nid yw'r wybodaeth yn ddatganiad cyflawn o'r gyfraith ac efallai y bydd yn newid ar ôl y dyddiad y cafodd ei ysgrifennu.